Gwasanaeth Plant ac Ieuenctid
Eglwys Bresbyteraidd Cymru

Gwanwyn 2009

FFYDDL@WN

Croeso i'r ail rifyn o **Ffyddl@wn**. Gobeithio eich bod wedi derbyn copi o'r rhifyn cyntaf ac wedi mwynhau ei gynnwys. Buasem yn gwerthfawrogi eich ymateb: cysylltwch â **Nia W Williams, Glasgoed, Yr Ala, Pwllheli, Gwynedd, LL53 5BL niacolegybala@btinternet.com** gyda'ch sylwadau.

YR YSGOL SUL – AWR ORAU'R WYTHNOS!

Ysgol Sul

"Coda, mae'n chwarter i wyth, fe fyddi di'n hwyr i'r ysgol," gwaeddodd Elen ar Dafydd "Dwi ddim eisiau mynd i'r ysgol heddiw, mae gen i boen yn fy mol!" meddai Dafydd. "Dwi ddim yn hoffi mynd i'r ysgol. Does na neb yn glên efo fi, dwi'n bored yna! Da ni byth yn gwneud pethau diddorol." "Ond mae'n rhaid i ti fynd Dafydd," meddai Elen yn dyner, "ti di'r prifathro!"

Ydych chi'n mwynhau mynd i'r Ysgol Sul? Mae'n naturiol ein bod yn teimlo fel rhoi'r gorau iddi weithiau. Ond beth os yw'r teimlad yn un parhaol? Hoffwn gynnig pedwar ateb ar sut i wneud yr Ysgol Sul yn awr orau'r wythnos i'r plant ac i ninnau!

1. Ni

"Dibynna 85% o lwyddiant yr Ysgol Sul ar yr athro neu'r athrawes."

Hawdd yw beio pêl-droed, rygbi a gemau cyfrifiadurol am atal y plant rhag dod i'r Ysgol Sul. Ond credaf fod rhaid i ni weithiau gynnwys ein hunain yn y rhestr hon! Os ydym am fod yn athrawon gwell, ystyriwch yr isod:

Beth a olyga Iesu Grist i ni?
A ydym yn hoffi bod efo'r plant?
A ydym yn dysgu'r hyn a ddywed y Beibl?
Y mae'r plant yn byw mewn byd ansicr iawn. Y mae'n bwysig bod y plant yn gwybod am y Beibl.

Cofiwn fod y Beibl…
- yn wir.
- i'n helpu yn ein bywyd o ddydd i ddydd.
- yn dangos beth yw ystyr a phwrpas bywyd.
- yn dangos y ffordd at Dduw drwy adnabod Iesu Grist.

A ydym yn credu bod yr hyn a wnawn yn bwysig?

A ydym eisiau dylanwadu ar fywydau'r plant?
Y mae plant angen arwyr! Does neb gwell na'u hathro neu athrawes Ysgol Sul!
A yw ein gwersi yn ddiddorol?
Ceisiwn ddefnyddio rhai o'n pum synnwyr wrth adrodd yr hanes, e.e. Porthi'r Pum Mil - bwyta sardîns a bara pitta! Neu ddangos lluniau.

A ydym yn paratoi ein gwers yn drylwyr?

A ydym yn gwneud ein gorau glas?
Fedrwn ni ddim gwneud mwy na hynny!

Trafodwch efo'ch cyd-athrawon:
A ydych yn ceisio edrych ar bopeth a wnewch drwy lygaid plentyn?

A ydych yn gwneud pethau mae'r plant yn eu mwynhau?

A ydych yn canu caneuon mae'r plant yn eu hoffi?

A ydych yn dysgu mewn ffordd mae'r plant yn ei ddeall?

A fuasai'r plant yn gwahodd eu ffrindiau i'r Ysgol Sul?

2. Y festri

Beth yw cyflwr y festri?

Os nad yw'r gweithle yn le cysurus, diflas yn wir fydd mynychu man cyfarfod yr Ysgol Sul. Nid yw'r rhan fwyaf o'n festrïoedd heddiw yn addas ar gyfer ein gwaith plant a phobl ifanc! Y mae ystafelloedd dosbarth ein hysgolion mor braf a phriodol ar gyfer ein plant. Onid yw plant ac ieuenctid ein Capeli yn haeddu'r gorau? Byddai gwario £1000 ar y festri yn sicrhau cadeiriau braf, paent lliwgar ar y waliau, carped dan draed a llenni ar y ffenestri.

Sut i godi'r £1000 i adnewyddu'r festri:
- Yn ddelfrydol, dylai cronfa'r Capel dalu am y gwaith.
- Apêl arbennig i'r aelodau.
- Codi'r arian drwy amrywiol weithgareddau wedi eu trefnu gan yr Ysgol Sul.

Trafodwch efo'ch cyd-athrawon:
Rhaid meddwl am ffyrdd i wario er mwyn ein plant, nid am ffyrdd i arbed arian!

3. Y plant

Yn ôl arolwg diweddar gan Gymdeithas y Plant:
- dim ond 43% o blant Prydain sydd yn meddwl bod oedolion yn garedig a chymwynasgar!
- dim ond 29% oedd yn credu y gellir ymddiried mewn oedolyn.
- mae 91% o blant y Swistir yn meddwl bod oedolion yn garedig a chymwynasgar.

Y mae'r Ysgol Sul i fod yn fan saff, diogel ac adeiladol i'r plant. Dylent wybod y cânt eu derbyn beth bynnag yw eu cefndir neu amgylchiadau.

Dyma rhai argymhellion i chi eu hystyried!
- Mwynhewch gwmni'r plant.
- Byddwch yn chwareus os yw hyn yn rhan o'ch cymeriad.
- Byddwch yn chi'ch hunan. Soniwch am eich helyntion chi pan yn blentyn! Bydd y plant wrth eu bodd.

Gofynnwch gwestiynau:
Aeth yr ysgol yn iawn yr wythnos hon?

Beth a welaist ti ar y teledu? Sut mae dy fam a dy dad? Dwi'n hoffi dy esgidiau newydd.

Ceisiwch ganmol y plant, ac nid eu ceryddu:
- Canmolwch y plant o flaen bawb os byddant yn gwneud rhywbeth da.
- Rhannwch dda-da.
- Ewch atynt os gwelwch hwy ar y stryd.
- Eto, cofiwch ymarfer da ymhlith y plant.

4. Aelodau'r eglwys

Y mae gan aelodau'r Eglwys ddoniau arbennig a pharodrwydd i gynorthwyo yn yr Ysgol Sul!

Ond rhaid gofyn am gymorth sydd yn cyd-fynd â'u doniau. Yn achlysurol, gellir gofyn am gymorth gan unigolion sydd â dawn…

- Cyfrifiadurol i baratoi adnodd.
- Gwnïo i baratoi gwisgoedd.
- Crefft / Arlunio
- Actio
- Gweinyddu
- Croesawu
- Beth am ofyn i unigolion weddïo dros waith yr Ysgol Sul?

Dros y blynyddoedd y mae rhai Ysgolion Sul ac eglwysi wedi tueddu i dyfu'n ddwy gymuned ar wahân. Y mae'n bwysig bod y berthynas yn cael ei hadfer.

Sut y gellir creu gwell perthynas efo'r capel?

- Oedfa Bob Oed: Beth am ddefnyddio'r gwasanaeth sydd ym maes llafur yr Ysgol Sul - Golau ar y Gair
- Rhoi adroddiad misol yn un o wasanaethau'r Sul.
- Gwahodd aelodau'r Eglwys i'r Ysgol Sul bob chwarter.
- Mynd ag ŵy Pasg bach i'r aelodau hŷn.
- Canu carolau adeg y Nadolig ac ymweld â chartrefi'r aelodau.
- Swper yr Ysgol Sul: gwahodd yr aelodau am swper a gemau yn y Festri (newydd ei haddurno!)

Trafodwch efo'ch cyd-athrawon:
Beth ellir ei wneud i atgyfnerthu'r Ysgol Sul oddi fewn eich heglwys leol?

Am fwy o wybodaeth am waith plant cysylltwch â Gwyn Rhydderch, rhydderch@tesco.net / 01758 770490



Wythnos yn Mywyd Gweithiwr Ieuenctid

Nathan Davies, Caerdydd

Magwyd Nathan Davies yn Ninas Powys, a phan yn 15 oed daeth i adnabod Iesu fel Gwaredwr ac Arglwydd. Ers gadael yr ysgol uwchradd, mae wedi treulio blwyddyn gap gydag elusen Ieuenctid Gristnogol Ignite ac wedi dechrau cwrs gradd mewn diwinyddiaeth yn Ysgol Ddiwinyddiaeth Efengylaidd Cymru.

Mae Nathan yn dysgu yn y tresi yng Nghapel Presbyteraidd Park End,Caerdydd, lle mae bellach yn gweithio fel gweithiwr ieuenctid rhan amser tra'n parhau â'i gwrs gradd. Daeth ei gysylltiad cyntaf â'r capel tra'n gweithio gydag un o'r blaenoriaid wrth rannu cawl yn ystod ei flwyddyn gap. Roedd y capel yn gweddïo am weithiwr ieuenctid, ac yntau yn ceisio arweiniad!

"*Fruit flies like bananas but time flies like the wind!* Does yna ddim digon o oriau mewn diwrnod! Rhwng fy mherthynas fy hun â Duw, astudio ar gyfer y Brifysgol, paratoi ar gyfer grwpiau ieuenctid a mynychu cyfarfodydd gweinyddol, does yna ddim digon o amser i bob dim!

"Yr wythnos yma does gen i ddim digon o nosweithiau i weld pawb fuaswn i'n hoffi eu cyfarfod - ond rydw i'n diolch i Dduw am y cyfleon rydw i'n ei gael i siarad am Iesu. Tri cyfarfod gwahanol, un gyda Cristion ifanc sydd angen cefnogaeth, un gyda person sy'n holi am y ffydd a'r trydydd gyda ffrind da y byddai'n cyfarfod ag o i weddïo ac i annog ein gilydd. Er fod y tri yma wedi cyrraedd llefydd gwahanol yn eu ffydd - dim ond un peth sydd gen i i siarad â hwy amdano, sef Iesu Grist ein Harglwydd! Mae'n fraint anhygoel medru gwneud hynny. Mae'n rhyfeddol fod Duw yn ein defnyddio i ehangu Ei Deyrnas!

"Mae hefyd yn grêt cael cyfarfod y bobl ifanc yn y capel bob wythnos. Mae yna un cyfarfod gweddi ac addoliad ganol wythnos ac astudiaeth Feiblaidd ar nos Sul - dwi'n gwybod mod i angen arweiniad Duw wrth i mi arwain yr ieuenctid! Mae'n gymaint o anogaeth eu gweld yn tyfu yn eu perthynas â'r Duw byw! Rydw i'n dechrau dysgu fod Duw yn rhoi'r nerth yr ydw i ei angen ar gyfer y gwaith mae wedi ei gynllunio! Câf fy ngwneud yn gryf pan ydw i'n wan gerbron Duw. Nid yw gweithwyr ieuenctid (nac unrhyw Gristion!) yn berffaith (yn wahanol i'r hyn mae ambell un yn feddwl) a dylem sylweddoli hyn bob amser gan ofyn i Dduw ein gwneud yn debycach Iddo."

Dyddiadur Coleg y Bala

Mai

6	Miri Mai: Hwyl ac Addoliad i Blant
8-10	Gofalaeth Gwyr

Mehefin

4	Y Gymdeithasfa yn y Dwyrain: Encil Chwiorydd
5-6	Wigwam: Penwythnos Teuluol
12-14	Eglwys Santes Fair, Aberystwyth
17	Hyfforddiant mewn swydd i Weinidogion
20	Y Picnic Mawr: Hwyl i Ysgolion Sul
26-28	Plant Aberystwyth, Treorci a Noddfa, Caernarfon

Gorffennaf

3-5	Fforwm Ieuenctid

Cyrsiau haf yng Ngholeg y Bala

Gorffennaf

20-24	Cwrs Ieuenctid (12-15)

Awst

14-21	Souled Out (15+)
24-27	Anhrefn Awst (8-12)



You & God

The Essential Prayer Diary

Elaine Carr (Scripture Union £4.99)
ISBN 184427 025 4

Yn aml rydym yn ei chael hi'n haws o lawer i siarad am weddïo nac i weddïo. Mae yna lawer iawn o lyfrau ar gael i'n hannog a'n cyfarwyddo i weddïo. Dyma lyfr ar gyfer ieuenctid sy'n eu harwain i weddïo am bob math o bethau, yn hollol naturiol. Mae'r cyflwyniad yn gosod y cyweirnod yn glir:

"Dim ond chdi a Duw, yn siarad am bethau sydd o bwys i ti. A gwranda ar hyn: pan wyt ti'n gweddïo, mae Duw yr holl Fydysawd yn aros a gwrando...Nid yn unig mae o'n gwrando, ond mae o hefyd yn ateb a gweithredu...Pa mor wych ydi hynna?!"

Dyddiadur gweddi yw You & God, sy'n arwain y person ifanc i weddïo am ddeg o benawdau am fywyd bob dydd e.e. ffrindiau, teulu, perthyn, ysgol. Gellir ei ddefnyddio mewn amryw o ffyrdd, gan ddethol thema neu ddilyn o dudalen i dudalen, ond mae anogaeth yma i fynd yn ôl ac ystyried atebion i weddi, neu newid yn agwedd y darllenydd ar ôl gweddïo. Mae'n rhyngweithiol a manwl ond heb godi ofn ar y darllenydd.

Dyma adnodd arbennig i annog pobl ifanc i weddïo, a gellid ei addasu fel adnodd i greu sesiwn ar weddïo gyda dosbarth Ysgol Sul neu Glwb Ieuenctid Cristnogol. Mae gan Elaine Carr brofiad helaeth o ysgrifennu ar gyfer ieuenctid 11-14 oed. Bu'n athrawes uwchradd am ddeng mlynedd ac yn bennaeth bugeiliol blwyddyn.

Nia W Williams

Cyfres Golau ar y Gair

Gwerslyfrau'r Cyngor Ysgolion Sul

(Cyhoeddiadau'r Gair £6.99 ond yn rhatach trwy danysgrifiad!)

Dyma'r ail flwyddyn i'r gyfres ardderchog yma, sydd wedi bod o fudd mawr i athrawon Ysgolion Sul ar hyd a lled Cymru. Mae'r deunydd i gyd yn wreiddiol, wedi ei baratoi gan Sarah Morris, sydd â blynyddoedd o brofiad o weithio gyda phlant, o oed meithrin i ieuenctid, yn yr Ysgol Sul a Chlybiau plant ac ieuenctid. Daw hyn yn amlwg yng nghynnwys y gwersi, yr amser sydd ei angen i'w paratoi, ac ymarferoldeb y gweithgareddau.

Ceir gwerslyfr ar thema arbennig y mis sy'n cynnwys gwersi ar gyfer plant meithrin-5 oed, 6-11oed ac 11-14 oed. Cryfder mawr y cynllun yw ei hyblygrwydd ar gyfer amryw o sefyllfaoedd: lle bo amryw o ddosbarthiadau, neu lle bo nifer fychan o blant ac ystod eang o ran oedran. Mae yma ddigonedd o syniadau: sut i gyflwyno thema a stori, syniadau crefft, cwis, gemau, dramâu a gweddïau. Mae yma hefyd wasanaeth teuluol yn seiliedig ar wersi'r uned, sy'n gyfle arbennig i ddod â bwrlwm yr Ysgol Sul i fywyd yr eglwys.

Gan fod y deunydd mor amrywiol a'r hanes yn cael ei gyflwyno a'i gymhwyso trwy gymaint o wahanol weithgareddau, mae yma gyfle arbennig i'r plant ddysgu mwy am y Beibl ac i ddatblygu eu dealltwriaeth ysbrydol. Gan fod uned yn parhau am fis, os bydd ambell blentyn yn methu wythnos, ni fyddant yn colli rhediad gwersi'r Ysgol Sul.

Gallwch brynu'r gyfres fesul llyfr, neu trwy danysgrifiad pryd y byddwch yn derbyn CDd yn cynnwys mwy o ddeunydd, yn cynnwys stori'r uned ar gyflwyniad Powerpoint. Cysylltwch ag **Aled Davies, Cyngor Ysgolion Sul Cymru, Ael y Bryn, Chwilog, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6SH / aled@ysgolsul.com** am fanylion tanysgrifiad.

Storïau Duw

John Settatre (Cyhoeddiadau'r Gair £8.99)

Adnodd newydd sbon fydd yn helpu arweinwyr i gynnal grŵp ieuenctid Cristnogol ar gyfer ieuenctid sy'n mynychu eglwysi yn ogystal ag unigolion nad ydynt yn mynychu.

Gwefannau defnyddiol

Ar gyfer gwirfoddolwyr gwaith plant:
www.daniellesplace.com
Gwefan sydd yn llawn syniadau crefft, gemau a gweithgareddau o bob math. Mae rhai pethau am ddim ond gellir derbyn holl adnoddau'r wefan am dâl blynyddol.

Ar gyfer gwirfoddolwyr gwaith ieuenctid:
www.youthministry.com
Gwefan yn llawn syniadau ar gyfer eich clwb ieuenctid.

Blwyddyn Gap Coleg y Bala

Argraffiadau Lois ac Aron o'u blwyddyn yng Ngholeg y Bala gawsom ni yn y rhifyn diwethaf. Tro Zoe ac Eleri ydi hi yn y rhifyn yma.

"Mae'n anodd credu fy mod ar fy ail Flwyddyn Gap yng Ngholeg y Bala! Mi wnes i fwynhau'r flwyddyn gyntaf cymaint, teimlais awydd cryf i aros yma. Cyn dod i Coleg y Bala nid oedd gennyf lawer o syniad beth oedd gwneud blwyddyn gap, ond mae'r pethau rwyf wedi eu profi wedi bod yn anhygoel! Rwyf wedi cael llawer o brofiadau gwahanol o redeg clybiau plant a phobl ifanc i lanhau toiledau...nid hynny oedd yr uchafbwynt!! Mae gwneud Blwyddyn Gap yn llawer mwy na chymryd blwyddyn allan; rydach chi yma i wasanaethu eraill a thrwy hynny dyfu yn eich ffydd. Rwyf yn teimlo hi'n fraint bob tro fyddai'n cael rhannu fy ffydd gyda'r plant a'r bobl ifanc ac rwyf yn dal i fod wrth fy modd yn y ffordd mae'r Arglwydd yn ein defnyddio ym mhob sefyllfa. Buaswn yn annog unrhyw un sydd eisiau rhoi blwyddyn i'r Arglwydd i ddod yma i fod yn rhan o deulu Coleg y Bala, i weithio gyda plant ac ieuenctid ac i gael lot fawr, fawr o hwyl!!" **Zoe**

"Dwi bellach hanner ffordd drwy fy nghyfnod fel myfyrwraig Blwyddyn Gap yng Ngholeg y Bala ac wedi cael cymaint o gyfleoedd nad oeddwn erioed wedi dychmygu y byddwn yn eu cael. Mae'r prysurdeb wrth i ni gynnal clwb ieuenctid, undeb Gristnogol, cynorthwyo gyda clwb plant, helpu gyda'r cyrsiau penwythnos, mynd allan i helpu gyda gwahanol glybiau ledled y wlad a llawer iawn mwy, yn anhygoel! Mae'r holl brofiadau yma yn gyfle gwych i ddysgu mwy am fy mherthynas gyda Duw ac yn gyfle i ddysgu eraill am yr hyn all Duw ei wneud yn eu bywydau hwy hefyd. 'Dwi mor falch fy mod wedi cael y cyfle i wneud blwyddyn gap, a byddwn yn argymell i unrhyw un sydd eisiau rhoi blwyddyn i Dduw i ddod yma i'r Coleg." **Eleri**

Os oes person ifanc y gwyddoch amdanyn nhw fyddai â diddordeb mewn treulio Blwyddyn Gap yn gweithio yng Ngholeg y Bala, cysylltwch â **Siân Edwards, Coleg y Bala, Ffordd Ffrydan, Y Bala, Gwynedd, LL23 7RY - 01678 520565 - colegybala@ebcpcw.org.uk** am fwy o fanylion.

souled OUT Cymru

"Braf iawn yw cael cwrdd â ieuenctid, myfyrwyr ac oedolion ifanc eraill yn y grwpiau Souled Out! Ar hyn o bryd mae'r grwpiau'n cyfarfod ym Manceinion, Bala, Caerdydd, Rhydaman, Llanrug, Pwllheli ac ardal y Gogledd Ddwyrain. Mae'r gymdeithas gynnes yma'n rhoi cyfle arbennig i ni gefnogi ac annog ein gilydd yn ein bywydau Cristnogol trwy gydol y flwyddyn. Yn syml iawn, rydym yn cyfarfod am fwyd ac yna cawn gyfle i addoli'r Arglwydd a chymhwyso gwirioneddau'r Beibl i'n bywydau bob dydd mewn awyrgylch anffurfiol. Cawn gyfle hefyd i weddïo dros ein gilydd a thros eraill o'n cwmpas."

Meryl Walters, Swyddog Gwaith Ieuenctid Hŷn

Am fanylion pellach, cysylltwch â Meryl ar 01678520565 neu ewch i'r wefan: www.souledoutcymru.net

Diwrnod Hyfforddiant yng Ngholeg y Bala: Ymateb

"Diwrnod da o ran dysgu/gwybodaeth ddefnyddiol, ond hefyd o glywed Duw yn siarad â ni a'n herio ynglŷn â'r hyn yr ydym yn ei wneud gyda pobl ifanc, a'r hyn allai fod yn ein galw i'w wneud. Roedd hefyd yn anogaeth i gyfarfod cymaint o bobl mor ddawnus ac ymroddedig sy'n gwasanaethu Duw ymysg ieuenctid y rhanbarth - ac yn gwneud hynny gyda'i gilydd. Felly diolch i chi, ac i bawb fu'n trefnu - gwerthfawrogwn yn fawr. Edrychwn ymlaen i ddarganfod beth sydd gan Dduw ar gyfer eleni."

Jim Mason, Llandudno

"Diwrnod ardderchog."

Beth Bailey, Dolgellau